OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1098

# Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

## RHAN 2

### Cais i Gofrestru fel Darparwr Gwasanaeth

**Yr wybodaeth sydd i gael ei darparu gan ymgeisydd**

**3.** Rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig(**1**), yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn adran 6(1)(a) i (c), ddarparu i Weinidogion Cymru y canlynol—

(a) yr wybodaeth a restrir yn Atodlen 1;

(b) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ynddo;

(c) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth mabwysiadu, gwasanaeth maethu, gwasanaeth lleoli oedolion neu wasanaeth eirioli, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu ohono;

(d) mewn cysylltiad ag ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth cymorth cartref, datganiad o ddiben ar gyfer pob man y mae'r gwasanaeth i gael ei ddarparu mewn perthynas ag ef.

**4.** Rhaid i'r datganiad o ddiben y mae'n ofynnol ei ddarparu yn unol â rheoliad 3(b), (c) neu (d) gynnwys yr wybodaeth a ddisgrifir yn Atodlen 2.

**Ffurf y cais**

**5.** Rhaid i gais i gofrestru fel darparwr gwasanaeth fod ar ffurf cais ar-lein a gyrchir ar dudalennau'r wefan a gynhelir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi eu sefydlu at ddiben hysbysu ymgeiswyr am y weithdrefn ar gyfer cofrestru o dan Ran 1 o'r Ddeddf.

(**1**) *Gweler* adran 2 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 iddi i gael y diffiniad o "gwasanaeth rheoleiddiedig".